# Cynllun Ffermio Cynaliadwy

## Dod a'r BPS i ben yn raddol

**Bydd y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) yn dod i ben yn raddol o 2026 ymlaen:**

- 2025 - 100%
- 2026 - 60%
- 2027 - 40%
- 2028 - 20%
- 2029 - 0%

FUW
UNDEB AMAETHWYR CYMRU

## Strwythur y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

### Camau Cydweithredol
Cynnig cyfleoedd i weithio gydag eraill ar raddfa tirwedd os dymunwch

### Camau Dewisol
Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd ariannu pellach i chi wneud mwy os dymunwch

### Camau Cyffredinol
Rhaid i chi gwblhau'r rhai sy'n berthnasol i'ch system ffermio

### Cod Cyffredinol
Gofynion y Cynllun nad ydynt yn y Gyfraith ar hyn o bryd

### Sylfaen Reoleiddiol
Rheolau Trawsgydymffurfio sydd eisoes wedi'u gosod yn y Gyfraith

## Pwy sy'n gymwys?

**Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, rhaid bodloni'r canlynol:**

- ✓ Cynnal gweithgareddau amaethyddol
- ✓ Bod gennych o leiaf 3 hectar o dir cymwys NEU dangos i chi weithio mwy na 550 awr o lafur safonol
- ✓ Bod gennych reolaeth lwyr arno am o leiaf 10 mis o'r flwyddyn galendr

## TALIAD SYLFAENOL CYFFREDINOL

## Gweithredoedd Cyffredinol

UA1: Iechyd pridd
UA2: Rheolaeth Integredig ar Blâu
UA3: Meincnodi
UA4: Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)
UA5: Cynnal cynefinoedd
UA6: Creu cynefinoedd dros dro ar dir wedi'i wella
UA7: Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig
UA8: Rheoli perthi/gwrychoedd
UA9: Cynnal coetir
UA10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd
UA11: Yr amgylchedd hanesyddol
UA12: Iechyd a lles anifeiliaid

## Taliad Sylfaenol Cyffredinol

**Bydd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol (UBP) a gynigir i bob ffermwr sy'n cymryd rhan yn cynnwys y cyfraddau talu canlynol yn 2026:**

**Taliad y Fferm Gyfan** ar bob ardal gymwys, gan gynnwys Tir Comin yn seiliedig ar hawliau - £70 ar y 70 hectar cyntaf a £2 yr hectar wedi hynny

**Taliad Gwerth Cymdeithasol** ar bob ardal gymwys gan gynnwys Tir Comin yn seiliedig ar hawliau - £107 yr hectar

**Taliad Cynnal Cynefin -** £69 ychwanegol yr hectar ar gynefin lled-naturiol a/neu gynefin dros dro a grëwyd i fodloni'r gofyniad cynefin o 10%

**Taliad Cynnal Coetir -** £62 ychwanegol yr hectar ar goetir presennol

### Capio Taliadau

| | |
|---|---|
| Hyd at £25,000 | 0% |
| £25,000 - £50,000 | 5% |
| £50,000 - £150,000 | 10% |
| £150,000 - £200,000 | 15% |
| £200,000 - £250,000 | 30% |
| £250,000 - £300,000 | 55% |
| Dros £300,000 | 100% |

### Taliad Sefydlogi

Bydd hawliadau hyd at 100 hectar sy'n dod i mewn i'r Cynllun yn 2026 yn derbyn taliad sefydlogrwydd untro o £1,000

## Proses y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**Dechrau'r flwyddyn Gynllun**
Dilynwch y Sylfaen Reoleiddiol, y Cod Cyffredinol a'r Gweithredoedd Cyffredinol perthnasol

**1af Ionawr**

Gweinyddu taliadau Sylfaenol Cyffredinol o flaen llaw

**Hydref**

**1af Mawrth - 15fed Mai**

**Ffenstr ceisiadau y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**
Diweddaru tir, cynefinoedd a choetiroedd cymwys ar Taliadau Gwledig Cymru (RPW)

Datgan eich bod wedi dilyn gofynion y Cynllun a'ch bod yn parhau i wneud hynny tan 31 Rhagfyr

**31ain Rhagfyr**

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth o'r Gweithredoedd Cyffredinol wedi'u cwblhau

Talu'r balans o'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol